# Y RHAGLEN ARFER

## Canllaw: Defnyddio Map ARFer

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


CANOLFAN BEDWYR

Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith
Collaborative Institute for Education Research, Evidence and Impact

# Cyflwyniad

Bwriad y ddogfen hon yw eich arwain drwy **Fap ARFer**.

Prezi yw'r platfform sy'n cyflwyno llwybrau'r map. Mae'n bwysig eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau yn y canllaw hwn wrth ddewis eich llwybrau.




## Defnyddio PC, Nid Ffôn Clyfar / Llechen Ddigidol

Mae'n bwysig sicrhau eich bod chi'n defnyddio PC i fynd drwy lwybrau'r map yn hytrach na ffôn clyfar neu lechen ddigidol.




Yn anffodus, ni fydd y llwybrau'n gweithio'n iawn i chi ar ffôn clyfar neu lechen ddigidol.



Agor Map ARFer

Mae holl adnoddau ARFer sy'n cynnwys cefndir y rhaglen a'r adnoddau cefnogi ar wefan y rhaglen.

Gallwch agor y wefan Gymraeg neu'r wefan Saesneg drwy glicio'r dolenni isod, neu drwy sganio'r cod QR gyda ffôn clyfar neu lechen ddigidol (ond cofiwch beidio ag agor y Prezi gyda ffôn clyfar neu lechen).


- Fersiwn Gymraeg
- Fersiwn Saesneg

Y Rhaglen ARFer

The ARFer Programme

# Sut i Ddefnyddio Map ARFer


Ar ôl i chi glicio ar ddolen i agor Map ARFer (y Prezi), byddwch chi pob tro’n glanio ar y dudalen ganlynol sy’n cynnwys y gair *present*.



# Sut i ddefnyddio Map ARFer

Cliciwch ar y gair *present* i ddechrau defnyddio’ Map ARFer.


**Byddwch yn amyneddgar os gwelwch yn dda. Gall gymryd rhai eiliadau i lwytho.**



# Sut i ddefnyddio Map ARFer

Wedi clicio ar y gair *present*, cliciwch ar y saethau ar waelod y sgrin i doglo sgrin lawn.


Bydd Map ARFer yn haws i'w defnyddio wedi ichi doglo sgrin lawn.



# Sut i ddefnyddio Map ARFer

Byddwch chi pob tro’n glanio ar dudalen gartref Map ARFer drwy agor dolen iddo.

Yma fe welwch diagram Venn a disgrifiad o dri phroffil iaith. Trafodir y proffiliau iaith nes ymlaen yn y canllaw hwn.




# Eich Lleoliad Chi ym Map ARFer: Y Bocs Glas

Ar frig bob un sleid drwy gydol Map ARFer, fe welwch chi'r bocs glas ar y chwith.

Mae'r bocs glas yma'n dynodi eich lleoliad chi ym Map ARFer.


Er enghraifft, hon yw'r dudalen gartref ac felly mae llun o dŷ yn y bocs glas i ddynodi hyn.



## Gwylio'r Tiwtorial: Y Bocs Oren

Yn ogystal â'r bocs glas ar frig bob un sleid drwy gydol Map ARFer, fe welwch chi focs oren ar y dde.

Wrth glicio ar y bocs oren, fe wnewch chi agor sleid newydd sy'n cynnwys fideo tiwtorial sydd yn eich arwain drwy sut i ddefnyddio Map ARFer.




## Gwylio’r Tiwtorial: Y Bocs Oren

I wylio’r fideo, cliciwch ar y saeth yng nghanol y fideo.



## Teithio Drwy Lwybrau’r Map

Bydd eich llygoden yn newid o fod yn saeth i fod yn llaw bob tro mae modd clicio er mwyn newid eich lleoliad chi ym Map ARFer neu i agor dolen.



Teithio Drwy Lwybrau'r Map

Mae dau eicon yn ymddangos wrth symud eich llygoden i'r dde.

Mae'r eicon uchaf yn eich caniatáu chi **i fynd yn ôl i'r dudalen gartref**. Mae'r eicon isaf yn eich caniatáu chi i fynd yn ôl **un cam** yn eich llwybr chi.

**Os ydych chi'n mynd ar goll wrth ddefnyddio Map ARfFer ac am fynd yn ôl i'r dechrau neu gymryd cam yn ôl, defnyddiwch yr eiconau sy'n ymddangos ar y dde, os gwelwch yn dda.**



Osgoi defnyddio’r saethau ar waelod y sgrin.

Sylwch fod saethau hefyd yn ymddangos ar waelod y dudalen os ydych chi’n symud eich llygoden, gyda’r un ar yr ochr dde yn fflachio.


**Mae’n bwysig iawn eich bod chi ddim yn clicio ar y saethau yma.**

Mae perygl yr ewch ar goll ym Map ARFer drwy glicio ar y saethau.



## Defnyddio Map ARFer

Mae'r dudalen gartref yn cynnwys disgrifiad o dri phroffil iaith a diagram Venn, sy'n eich caniatáu chi i ddewis y proffil iaith sydd fwyaf addas i'r unigolyn, neu'r tîm, sy'n defnyddio'r rhaglen.




**Enghraifft o Daith Drwy Map ARFer**

Y dasg gyntaf felly yw dewis pa broffil iaith, neu unrhyw gymysgedd o'r tri phroffil iaith, sydd yn disgrifio orau proffil iaith yr unigolyn neu'r tîm sydd yn defnyddio'r rhaglen.

I symud ymlaen yn y llwybr, cliciwch ar proffil iaith addas o fewn y Venn.

Yn yr enghraifft, rydym wedi dewis proffil cymysg A, B ac C.




**Dewis senario/cyd-destun iaith.**

Y peth nesaf i'w wneud yw dewis pa senario/cyd-destun iaith rydych chi eisiau canolbwyntio arno fo. Mae'r un pedwar senario iaith ar gael ym mhob proffil iaith, fel mae'r ddelwedd yn dangos.

Mae cylch glas sydd yn cynnwys testun gwyn du fewn iddo yn eich symud chi ymlaen yn eich llwybr.

I symud ymlaen yn y llwybr, cliciwch ar y senario/cyd-destun iaith rydych chi eisiau canolbwyntio arno fo.

Fel enghraifft, rydym wedi dewis "Defnyddio technoleg".




**Tasgau ar raddfa/continwwm.**

Nesaf fe welwch chi raddfa. Mae'r rhifau sydd am ben y raddfa yn dangos y nifer o dasgau sydd ar gael ar gyfer eich llwybr chi.

Mae'r tasgau sydd fwyaf i'r chwith o'r sgrin yn dynodi'r tasgau hawsaf. Mae'r tasgau'n mynd yn anoddach wrth i chi symud i'r dde, a'r dasg fwyaf anodd ar y pen yn yr ochr dde.

Cliciwch ar rhif y dasg rydych chi eisiau canolbwyntio arno fo er mwyn symud ymlaen yn eich llwybr.
**I wneud hyn, mae'n bwysig eich bod chi'n lleoli eich llygoden dros y rhif (nid y saeth nac ar y raddfa ei hun) fel mae'r ddelwedd yn dangos.**
Er enghraifft, rydym wedi dewis tasg rhif 2.




***Enghraifft o dasg.***

Mae’r ddelwedd yn dangos y dasg.

Mae’r dasg benodol hon yn cynnwys awgrymiadau o ran lle gallwch ddefnyddio’r bathodyn Iaith Gwaith.

Cliciwch ar yr awgrym rydych chi eisiau canolbwyntio arno fo er mwyn symud ymlaen yn eich llwybr.

Fel enghraifft, rydym wedi dewis “Cefndir rhithiol”.




***Enghraifft o dasg.***

Yma mae enghraifft o’r bathodynnau Iaith Gwaith yn rhan o gefndir rhithiol y cymeriadau glas.

Yn ogystal, mae’r cylch glas yn y canol yn rhoi cyfle i chi symud ymlaen yn eich llwybr am gyfarwyddiadau am sut i osod un o fathodynnau Iaith Gwaith fel eich cefndir rhithiol mewn cyfarfod neu sgwrs dros fideo.

Cliciwch ar y cylch glas sydd yng nghanol y sgrin er mwyn symud ymlaen yn eich llwybr.



***Enghraifft o dasg.***

Dyma’r gwahanol ddewisiadau i chi eu lawrlwytho. Efallai bod eich sefydliad chi wedi creu rhai corfforaethol. Awgrymiadau yn unig yw’r rhai sydd *ym* Map ARFer.



***Enghraifft o dasg.***


Fel mae'r testun ar frig y tudalen yn ei ddatgan, fe allwch chi glicio o dan unrhyw lun er mwyn agor y llun yn eich porwr gwe a'i lawr lwytho.

**I wneud hyn, mae'n bwysig eich bod chi'n lleoli eich llygoden o dan y llun perthnasol, ond uwchben y llinell las, fel mae'r ddelwedd yn dangos.**



## ***Enghraifft o dasg.***

Dyma’r llun perthnasol wedi agor ym mhorwr gwe yn barod i’w lawrlwytho ar ôl clicio’r ddolen.



*Help ychwanegol.*


Fe welwch chi hefyd bod cylch glas â thestun gwyn sy’n cynnig help i osod cefndir rhithiol.

Cliciwch o fewn y cylch glas os ydych am gael fwy o help.



*Help ychwanegol.*

Yma mae fideos ar gael i'ch helpu chi gyflawni'r dasg.
Cliciwch ar y saeth/symbol chwarae yng nghanol y fideo i wylio fideo.



# Ffurflen Adborth

Fe welwch chi'r cod QR yma yn rhywle ym mhob un tudalen sy'n cynnwys tasg.

Byddwch chi'n agor ffurflen i rannu adborth ynglŷn â'r dasg honno drwy sganio'r cod QR gyda chamera'ch ffôn clyfar neu eich llechen ddigidol.


Mae'n bosib hefyd clicio o dan y cod QR er mwyn agor y ffurflen yn eich porwr gwe.
**Cofiwch leoli eich llygoden o dan y cod QR, ond uwchben y llinell las, fel mae'r ddelwedd yn dangos.**



# Ffurflen Adborth


Dyma’r ffurflen wedi agor mewn porwr gwe yn barod i’w llenwi er mwyn mynegi barn ynglŷn â’r dasg benodol honno ar ôl clicio’r ddolen.

Byddem yn falch iawn o dderbyn eich adborth!



# Cloi

Rydym yn gobeithio bod y canllaw hwn wedi rhoi blas i chi o beth yw Map ARFer a sut i'w defnyddio, ac y byddwch chi'n mwynhau mynd drwy'r tasgau ar eich liwt eich hun.



## Tiwtorial Fideo

Cofiwch hefyd bod tiwtorial fideo ar gael sydd yn eich arwain drwy sut i ddefnyddio Map ARFer. Gallwch agor fersiwn Gymraeg neu fersiwn Saesneg o’r tiwtorial drwy glicio’r dolenni isod, neu drwy sganio’r cod QR gyda ffôn clyfar neu lechen ddigidol (cofiwch bod modd hefyd gwylio’r tiwtorial drwy glicio ar y bocs oren ym Map ARFer ei hun).

- Fersiwn Gymraeg
- Fersiwn Saesneg

**Tiwtorial Pecyn Rhyngweithiol ARFer**

**Tutorial: ARFer Interactive Toolkit**

## Adborth

Os hoffwch chi rannu eich profiadau ynglŷn ag unrhyw elfen o Becyn Adnoddau ARFer, neu awgrymu beth i'w newid, ei ddileu neu ychwanegu, neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â threialu'r pecyn adnoddau ar unrhyw adeg, peidiwch ag oedi cyn llenwi'r ffurflen adborth.

Gallwch agor fersiwn Gymraeg neu fersiwn Saesneg y ffurflen adborth drwy glicio'r dolenni isod, neu drwy sganio'r cod QR gyda ffôn clyfar neu lechen ddigidol (cofiwch bod y cod QR a dolen i'r ffurflen o fewn Map ARFer ei hun ar dudalennau'r tasgau).

- Fersiwn Gymraeg
- Fersiwn Saesneg

**Ffurflen Adborth ARFer**

**ARFer Feedback Survey**

**Cysylltwch**

Wrth gwrs mae croeso i chi e-bostio’r tîm i drafod Y Rhaglen ARFer:

arfer@bangor.ac.uk

Diolch yn fawr i chi am eich diddordeb yn Y Rhaglen ARFer.

Pob lwc wrth dreialu Pecyn Adnoddau ARFer. Edrychwn ymlaen at glywed gennych chi am eich profiad!

- Dr Lowri Angharad Hughes, Cyfarwyddwr Y Rhaglen ARFer.
- Arwel Tomos Williams, Ymchwilydd Y Rhaglen ARFer.

